

ADDYSG UWCH: POLISI FFIOEDD DYSGU A CHOFRESTRU **RHAN-AMSER 2019/20**

Os ydych yn cofrestru fel myfyriwr rhan-amser, dylech ddarllen a deall y telerau cofrestru a amlinellir isod cyn llofnodi'r ffurflen gofrestru. Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn deall eich atebolrwydd a'n polisi ynglŷn â thaliadau ac ad-daliadau.

Fel myfyriwr Addysg Uwch rhan-amser, rydych yn atebol am dalu ffioedd dysgu, a ffioedd cofrestru yn eich blwyddyn gyntaf - darperir rhestr lawn o ffioedd yn Atodiad 1.

Wrth gofrestru gofynnir i chi nodi pwy sy'n talu eich ffioedd.

Os yw eich cyflogwr yn bwriadu talu eich ffioedd yna mae rhaid i chi ddod ag Archeb Pwrcasu'r Cwmni, neu lythyr yn datgan y bwriad i gefnogi ar bapur â phennawd llythyr eich cyflogwr yn nodi at bwy y dylid cyfeirio anfoneb ac yn nodi unrhyw rifau archeb/cyfeiriadau ac ati y mae am iddynt gael eu dyfynnu ar yr anfoneb. Fel arall, cyn cofrestru gallwch chi ofyn am ffurflen y coleg "Awdurdod i Anfonebu Cyflogwr/Noddwr am Ffioedd Cwrs" oddi wrth y Gofrestrfa neu unrhyw Swyddfa Gampws, er mwyn i chi a'ch cyflogwr ei llenwi. Unwaith y cwblheir y ffurflen dylid ei dychwelyd i'r Gofrestrfa neu ei chyflwyno adeg cofrestru.

Hawlio cymorth ar gyfer ffioedd oddi wrth Gyllid Myfyrwyr Cymru

Gallwch wneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru i wirio a ydych yn gymwys i gael cymorth ariannol ar gyfer ffioedd dysgu. Noder y bydd eich asesiad yn seiliedig ar y meini prawf isod:

- Cymhwyster Personol – mae hyn yn rhoi ystyriaeth i ble rydych yn byw, faint yw eich oed a ph'un a ydych wedi cael cyllid myfyriwr o'r blaen (os oes gennych eisoes radd anrhydedd o'r DU, fel arfer ni allwch wneud cais am y cymorth hwn).
- Incwm y cartref – mae'r asesiad yn wahanol i'r un ar gyfer astudio llawn amser
- Cymhwyster y cwrs – mae hyn yn golygu p'un a yw'r cwrs rydych chi am ei astudio yn gymwys am gymorth ariannol ai peidio

Er mwyn sicrhau bod unrhyw gyllid yr ydych yn ei hawlio yn cael ei dalu i chi'n brydlon, mae'n hanfodol eich bod yn rhoi gwybod i Gyllid Myfyrwyr Cymru/Student Finance England eich bod yn mynychu'r Coleg cywir.

Mae Coleg Sir Gâr, Coleg Ceredigion ac Ysgol Gelf Caerfyrddin yn rhan o Grŵp Prifysgolion a Cholegau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. At ddibenion ffioedd rhaid i chi ddyfynnu:

Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant

ar eich ffurflenni i gyd wrth ddewis eich sefydliad a Choleg Sir Gâr neu Goleg Ceredigion wrth ddewis eich lleoliad astudio.

Bydd myfyrwyr nad ydynt yn sicrhau cymorth gan Gyllid Myfyrwyr Cymru/Student Finance England neu'r Tîm Ewropeaidd yn atebol yn bersonol am dalu'r holl ffioedd dysgu.

Myfyrwyr Newydd o 2018/19

Bydd y pecyn ffioedd/cymorth myfyrwyr canlynol yn berthnasol i fyfyrwyr newydd rhan-amser, sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru ac sy'n astudio yng Nghymru, o 1^{af} Medi 2019.

- Benthyciad Ffioedd Dysgu hyd at £2625.00, yn dibynnu ar ddwyyster y cwrs
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru hyd at £4987.50 (yn dibynnu ar incwm y cartref)
- Cymorth ychwanegol sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau personol

Myfyrwyr a gychwynnodd eu hastudiaethau ar neu ar ôl 1^{af} Medi 2014

Bydd y pecyn ffioedd/cymorth myfyrwyr canlynol yn berthnasol i fyfyrwyr rhan-amser sy'n parhau, sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru ac sy'n astudio yng Nghymru, o 1^{af} Medi 2019.

- Benthyciad Ffioedd Dysgu hyd at £2625.00, yn dibynnu ar ddwyyster y cwrs
- Grant Cwrs hyd at £1155.00 (yn ddibynnol ar incwm y cartref)
- Cymorth ychwanegol sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau personol

Myfyrwyr sy'n parhau a gychwynnodd eu hastudiaethau cyn 1^{af} Medi 2014

Bydd y pecyn ffioedd/cymorth myfyrwyr canlynol yn berthnasol i fyfyrwyr rhan-amser sy'n parhau, sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru ac sy'n astudio yng Nghymru, o 1^{af} Medi 2019.

- Grant Ffioedd Dysgu hyd at £1025.00
- Grant Cwrs hyd at £1155.00 (yn ddibynnol ar incwm y cartref)
- Cymorth ychwanegol sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau personol

Caiff yr holl geisiadau eu trin yn awr gan Cyllid Myfyrwyr Cymru o'u canolfan yng Nghyffordd Llandudno. Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth ynghylch sut i wneud cais a pha gymorth sydd ar gael yn: cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion/Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg: Manylion Ffioedd Cwrs

Noder fod y ffi flynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019/20 ar gyfer y naill neu'r llall o'r cyrsiau hyn yn £1,986 (blwyddyn 1 a 2). Noder bod y cyrsiau hyn yn cael eu hystyried yn rhai rhan-amser gan Cyllid Myfyrwyr Cymru ac felly byddant yn cael eu hasesu fel yr uchod. Os yw eich ffioedd, neu gyfran ohonynt yn mynd i gael eu talu gan eich cyflogwr, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o hyn wrth gofrestru.

Myfyrwyr Rhan-amser yn unig – Cynllun Hepgor Ffioedd i Israddedigion

Fel eithriad bydd rhai myfyrwyr rhan-amser mewn addysg uwch yn gallu hepgor eu ffioedd os ydynt yn bodloni amodau penodol – h.y. rhai myfyrwyr cymwys sy'n parhau, er gwaethaf dwyster yr astudiaeth a hefyd myfyrwyr cymwys newydd sy'n astudio llai na 25% FTE (llai na 30 o gredydau). Mae mwy o fanylion ar gael ar gais. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch ynghylch unrhyw agwedd ar ffioedd a hawlio cymorth, gweler isod rai manylion cyswllt defnyddiol:

cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Swyddog Cefnogi Dysgwyr, y Graig

Swyddog Cefnogi Dysgwyr, Rhydaman a'r Gelli Aur

Swyddog Cefnogi Dysgwyr, Pibwrlwyd a Ffynnon Job

Y Gofrestrfa

Ffôn: **0300 200 4050**

Ffôn: 01554 748036

Ffôn: 01554 748305

Ffôn: 01554 748070

Ffôn: 01554 748383

TALU FFFIOEDD

Gofynnir i fyfyrwyr rhan-amser wrth gofrestru a ydynt yn talu eu ffioedd eu hunain, yn cael eu cefnogi gan eu cyflogwr neu wedi hawlio cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Os yw myfyrwyr yn talu eu ffioedd eu hunain ac nad ydynt yn derbyn Benthyciad Ffioedd neu Grant Ffioedd, caniateir iddynt dalu mewn 3 cham ar y mwyaf os yw'r ffioedd yn fwy na £400, a golyga hyn y rhoddir gorchymyn Debyd Uniongyrchol y dylid ei lenwi wrth gofrestru neu ei ddychwelyd i'r **Gofrestrfa**, erbyn **18^{fed} Hydref 2019** fan pellaf.

Er enghraifft, os yw eich ffi yn £1,704 cesglir y taliad cyntaf adeg cofrestru am swm o £568 (1/3 o'r ffioedd dysgu); bydd yr ail a'r trydydd taliad yn £568 a £568 (1/3 o'r ffioedd dysgu). Anfonir anfoneb atoch o leiaf 14 diwrnod cyn y taliad debyd uniongyrchol cyntaf, a fydd yn cadarnhau'r dyddiadau ar gyfer casglu'r ffioedd ynghyd â'r symiau a gaiff eu debydu. Bydd yr anfoneb wedi'i marcio 'Er Gwybodaeth yn Unig'. Gwaetha'r modd, dim ond trwy ddebyd uniongyrchol y caniateir taliadau mewn camau.

TYNNU NÔL AC AD-DALIADAU

Os ydych yn meddwl am roi'r gorau i'ch cwrs mae'n bwysig eich bod yn gofyn am gyngor er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r holl oblygiadau wrth wneud eich penderfyniad. **Rhaid i chi** hysbysu'ch tiwtor a'r **Gofrestrfa** yn ffurfiol ar unwaith os ydych yn penderfynu tynnu nôl o'ch astudiaethau, gan gadarnhau dyddiad olaf eich presenoldeb. Dylech hefyd gysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru oherwydd gallai'r ffaith eich bod wedi tynnu nôl beryglu eich hawl i gael cymorth ariannol yn y dyfodol.

Rhoddir cyfnod gras o bythefnos o ddechrau eich cwrs pan na chodir ffioedd. Yn dilyn y cyfnod gras o bythefnos bydd y telerau canlynol yn gymwys ar gyfer taliadau;

Codir ffioedd yn unol â thelerau ac amodau Benthyciadau Myfyrwyr, sef -

Tymor 1 – 1^{af} Hydref 2019	25% o'r ffi flynyddol
Tymor 2 – 7^{fed} Ionawr 2020	50% o'r ffi flynyddol
Tymor 3 - 20^{fed} Ebrill 2020	100% o'r ffi flynyddol

PEIDIO Â THALU FFFIOEDD

Ni chaniateir i unrhyw fyfyrwr sy'n cwblhau blwyddyn academiaidd heb dalu ffioedd dysgu a chofrestru, i ailgofrestru ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf, hyd nes telir yr holl ffioedd sy'n weddill yn llawn. Gall methu â thalu am unrhyw gostau nwyddau neu wasanaethau a godir ar ddysgwyr gan y Coleg arwain at gymryd camau Llys Sirol i adennill y swm/symiau sy'n weddill. Gellid hefyd defnyddio Asiantaethau Adfer Dyledion annibynnol i geisio casglu unrhyw ffioedd sy'n weddill, gyda chost gwneud hynny yn cael ei hychwanegu i'ch dyled. Os bydd angen gweithredu yn y modd hwn, gellir defnyddio gwybodaeth bersonol a ddarparwyd gennych er mwyn cwblhau gwiriadau gwrth-dwyll priodol. **Mae'n bosibl y caiff Gwybodaeth Bersonol a ddarperir gennych ei datgelu i asiantaeth cyfeiriadau credyd neu atal twyll, ac mae'n bosibl y cedwir cofnod o'r wybodaeth honno.**

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych gyllid digonol yn ei le cyn eich bod yn dechrau ar eich astudiaethau ac yn mynd i gostau ffioedd.

Bydd myfyrwyr nad ydynt yn sicrhau cymorth gan Gyllid Myfyrwyr Cymru/Student Finance England neu'u Cyflogwr yn atebol yn bersonol am dalu'r holl ffioedd dysgu.

Atodiad 1



TALIADAU FFI OEDD DYSGU A CHOFRESTRU ADDYSG UWCH RHAN-AMSER				
<i>Myfyrwyr Cartref a'r UE yn unig</i>				
Rhan-amser				
Cwrs		Ffi Lawn	Y credyd	Ffi Gofrestru
HNC blwyddyn 1 ^{af}		£ 1,704	£ 28.40	Yn cynnwys Ffi Gofrestru
HNC 2 ^{il} flwyddyn		£ 1,461	£ 24.35	
HND blwyddyn ychwanegol		£ 1,704	£ 28.40	Yn cynnwys Ffi Gofrestru
Gradd Sylfaen blwyddyn 1 ^{af}		£ 1,704	£ 28.40	
Gradd Sylfaen 2 ^{il} flwyddyn		£ 1,461	£ 24.35	
Gradd Sylfaen 3 ^{edd} flwyddyn		£ 1,248	£ 20.80	
BA/BSc Blwyddyn 1 ^{af}		£ 1,704	£ 28.40	Yn cynnwys ffioedd stiwdio
BA/BSc 2 ^{il} flwyddyn		£ 1,461	£ 24.35	Yn cynnwys ffioedd stiwdio
BA/BSc 3 ^{edd} flwyddyn		£ 1,248	£ 20.80	Yn cynnwys ffioedd stiwdio
BA/BSc Blwyddyn 4-6		£ 1,068	£ 17.80	Yn cynnwys ffioedd stiwdio
Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion/Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg Blwyddyn 1 ^{af}		£ 1,986	£ 33.10	
Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion/Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg 2 ^{il} flwyddyn		£ 1,986	£ 33.10	